Antur Patagonia

Stori yw hon am anturiaethwyr Cymreig. Wrth weld y gair anturiaethwyr, am beth ry'ch chi'n meddwl?

Dyw'r anturiaethwyr ry'n ni'n cwrdd â nhw heddiw yn ddim byd tebyg i anturiaethwyr ein dyddiau ni. Does ganddyn nhw ddim dillad ffansi i'w cadw'n sych a chynnes, na sgidiau drudfawr i'w hamddiffyn rhag tywydd gwael; dy'n nhw ddim wedi treulio misoedd lawer yn hyfforddi a gwella'u ffitrwydd, a dy'n nhw ddim chwaith yn teithio ar eu pennau'u hunain.

Plant fel chi ydy'n hanturiaethwyr ni, ynghyd â mamau a thadau, modrabedd ac ewythrod, pobl o bob lliw a llun ac oedran – yn cynnwys babanod bach, hyd yn oed. Pobl gyffredin o bob rhan o Gymru yw'r anturiaethwyr hyn, and nid mynd ar ryw daith fer, gyffrous maen nhw – yn hytrach, maen nhw'n gadael eu cartrefi am byth . . . i chwilio am gartrefi newydd ymhell, bell i ffwrdd ar draws Môr Iwerydd a'i donnau gwyllt.

I ble maen nhw'n mynd, dybiwch chi? Y gwir yw bod ein stori ni'n digwydd 150 mlynedd yn ôl, sef tua'r adeg pan oedd eich hen-hen-hen daid a nain yn byw; mae hynny'n bell iawn yn ôl – cyn dyddiau trydan a cheir, gwres canolog a chyfrifiaduron. Bryd hynny, roedd bywyd yng Nghymru'n galed iawn i lawer o bobl gyffredin.

Dwi am i chi ddychmygu eich bod chi'n un o'r bobl hyn. Daniel Lewis yw eich enw, ac fel y rhan fwyaf o bobl gyffredin yng Nghymru ar y pryd, ry'ch chi'n siarad Cymraeg bob dydd. Mae eich tad a'ch brodyr hŷn yn gweithio yn y pwll glo lleol. Rydych chi'n byw mewn pentref o'r enw Aberpennar, mewn tŷ bychan iawn ac yn rhannu stafell wely gyda'ch mam, eich tad, a'ch brodyr a chwiorydd. Does dim tŷ bach yno, ac yn sicr does dim byd mor grand â bath neu ddŵr poeth. Mae eich tad a'ch brodyr yn cerdded yn bell i'r gwaith bob bore, yn gweithio dan ddaear drwy'r dydd, ac wedyn yn cerdded yn ôl adref. Ry'ch chi'n dal yn ddigon ifanc i fod yn yr ysgol, ond dyw hynny'n fawr o hwyl. Dy'ch chi ddim yn cael siarad Cymraeg yn yr ysgol, ac os yw'r athrawon yn eich dal yn siarad Cymraeg gyda'ch ffrindiau, fe gewch eich cosbi'n drwm.

O un pen eich pentref chi – ar y bryn yn y pellter – gallwch weld clamp o dŷ mawr crand; mae e mor fawr nes ei fod yn cael ei alw'n Gastell. Mae'r dyn sy berchen y pwll glo lle mae eich tad a'ch brodyr yn gweithio yn byw yn y Castell hwn gyda'i deulu. Dy'ch chi byth yn ei weld e na'i deulu yn Aberpennar. Mae eu bywyd nhw'n gwbl wahanol i'ch bywyd chi – mae'n grand iawn, yn hynod o foethus, ac mae gan y teulu bopeth y gall arian ei brynu. Fel perchnogion y pwll glo, maen nhw wedi dod yn gyfoethog iawn.

Un diwrnod ry'ch chi a'ch teulu, a llawer o deuluoedd eraill yr ardal, yn tyrru i mewn i'r capel yn Aberpennar oherwydd bod Edwin Roberts wedi dod yno i sôn wrth bawb am Batagonia, gwlad ymhell, bell i ffwrdd ar draws Môr Iwerydd sy'n rhan o'r Ariannin, gwlad yn Ne America. Mae Edwin Roberts yn siarad Cymraeg ac yn dweud, "Mae Patagonia'n lle hyfryd, yn llawn coed ac afonydd. Bydd bywyd yn llawer iawn haws yno nag yn Aberpennar. Dewch i ymuno â mi ar antur anhygoel – gyda'n gilydd gallwn adeiladu cymuned newydd, Gymraeg."

Ry'ch chi'n methu credu'r hyn mae e'n ddweud, ac mae eich rhieni'n teimlo'r un fath. Mae troi cefn ar yr holl waith caled, llwch y glo, a bod byth a hefyd yn flinedig a thlawd, yn swnio fel cyfle gwych – ond bydd yn anodd iawn ffarwelio gyda ffrindiau, cefndryd a neiniau a theidiau.



Dyna, felly, sut y daethoch chi i fod ar fwrdd y llong *Mimosa* yn nociau Lerpwl, un diwrnod yn 1865; ry'ch chi'n un o ryw 150 o ferched, dynion a phlant o Gymru sy'n teimlo cyfuniad o gyffro ac ofn wrth aros i hwylio ar draws Môr Iwerydd i ddod o hyd i gartref newydd.

Cofiwch chi, nid rhyw long bleser anferth yw'r *Mimosa*, gyda chabanau moethus, pyllau nofio, sinemâu a bariau. Does dim peiriant i'w gyrru, hyd yn oed – llong hwylio wedi'i gwneud o bren yw'r *Mimosa*, a'r cyfleusterau'n syml iawn a dweud y lleiaf. Er bod yr antur yn llawn cyffro, mae hefyd yn codi ofn; mae hi mor oer, a'r llong yn hyrddio'n wyllt o ochr i ochr. Mae'r tywydd yn arw, a stormydd yn taro'n aml, gyda llawer o'r bobl o'ch cwmpas yn cael eu taro'n wael iawn ar y daith. Ac mae'r arogl yn annioddefol. Mae'r daith yn cymryd wyth wythnos – cyfnod hirach na gwyliau haf eich ysgol, hyd yn oed – ond, o'r diwedd, ry'ch chi'n cyrraedd pen y daith ar 28 Gorffennaf 1865.

Yma yng Nghymru, mae hi'n haf ym mis Gorffennaf. Ond mae Patagonia i'r de o'r cyhydedd – pan mae'n haf yma i ni, mae'n aeaf ym Mhatagonia. Felly, pan ry'ch chi'n cyrraedd, bron â llwgu ar ôl eich taith hir, mae hi'n rhewllyd o oer. Yn waeth fyth, pan fyddwch yn camu ar dir sych, does dim golwg o bentrefi na thai yn unman. Does dim coed yno, hyd yn oed, a allai fod wedi cynnig rhywfaint o gysgod.

Y cyfan welwch chi yw anialwch llwm – nid y wlad hyfryd, ffrwythlon yn llawn coed ac afonydd y bu Edwin Roberts yn sôn amdani yn y capel yn Aberpennar. Wrth i chi swatio yn yr oerfel gyda'ch brodyr a chwiorydd a Mam, mae'r dynion yn dechrau cerdded ar hyd yr arfordir ac i mewn i'r tir i chwilio'n ddyfal am rywle i gysgodi. Ymhen hir a hwyr maen nhw'n dod yn ôl, a dweud eu bod wedi dod o hyd i ogofâu lle gallwch chi gysgodi am y tro.

Dyw byw mewn ogofâu yn ddim byd tebyg i'r cartref newydd cysurus oedd wedi ei addo i chi a'ch rhieni, ac mae'n teimlo fel oes hyd nes o'r diwedd maen nhw'n dod o hyd i ddyffryn afon Chubut.

Dyma ble mae holl deithwyr y *Mimosa*'n dechrau creu cartrefi. Mae pawb yn brysur yn adeiladu tai, adeiladu ysgol, ac adeiladu capel. Mae'r oedolion yn rhannu'r tir o bobtu'r afon fel bod pawb yn cael rhan deg a chyfartal. Maen nhw'n rhoi'r enw 'Y Wladfa' ar eu cymuned newydd, eu gwlad newydd.

Ond mae un her fawr arall i'w hwynebu os yw'r bywyd newydd yma ym Mhatagonia, Y Wladfa, am fod yn llwyddiant. Mae'r afon Chubut yn cael ei bwydo nid gan ddŵr glaw, ond gan eira sy'n toddi oddi ar lethrau'r Andes, cadwyn o fynyddoedd uchel, hardd.

Yn hytrach na chael cyflenwad cyson o ddŵr drwy gydol y flwyddyn, mae 'na gyfnodau hir o sychder a'r tir yn rhy sych i allu tyfu unrhyw beth; yna, pan mae'r eira'n toddi, mae'r afon yn gorlifo gan ddinistrio unrhyw gnydau ry'ch chi'n ceisio'u tyfu. Felly hyd yn oed ar ôl yr holl waith caled yn adeiladu'r tai, rhannu'r tir yn deg, plannu hadau, gofalu am eich cnydau, eich teulu a'ch cymdogion, mae'n frwydr barhaus i wneud bywoliaeth – ac os na allwch chi fwydo'ch hunain, does dim modd i'r gymuned oroesi.

Beth wnaethon nhw, gredwch chi? . . .

Wrth iddyn nhw ymdrechu i fynd i'r afael â'r heriau mawr yma, cafodd yr ymfudwyr help gan y llwythau Americanaidd brodorol. Yn hytrach na bod yn grac oherwydd bod y newydd-ddyfodiaid wedi setlo ar eu tiroedd nhw, roedd yr Americanwyr brodorol yn gyfeillgar a hael.

Aethon nhw ati i ddysgu'r Cymry sut i hela anifeiliaid gwyllt, y gallen nhw eu bwyta a defnyddio'u crwyn i wneud dillad. Llwyddodd yr ymfudwyr hefyd i gael gafael ar gyflenwadau argyfwng o fwyd o Buenos Aires, dinas fawr i'r gogledd o Batagonia, yn yr Ariannin, na ellid ei chyrraedd ond ar gwch. Ond doedd dim modd i'r help yma bara am byth, ac roedden nhw'n sylweddoli bod raid iddyn nhw ddysgu gweithio gyda'u hamgylchedd naturiol os oedden nhw am fod yn annibynnol.

Rachel Jenkins oedd yr un feddyliodd am ateb i'r broblem. Sylweddolodd hi nad oedd raid iddyn nhw ystyried yr holl ddŵr oedd yn llifo i lawr o'r Andes fel eu prif her – yn wir, gallai fod yn ateb i'w gweddïau. Sylweddolodd hefyd, pe baen nhw'n cloddio sianeli'n arwain allan o afon Chubut, y byddai gan y dŵr rywle arall i fynd yn hytrach na thorri'i glannau a gorlifo dros y caeau. A thrwy gloddio'r sianeli, yn hytrach na bod llifogydd yn difetha peth o'u cnydau, ac eraill yn cael eu

dinistrio gan gyfnodau o sychder, nawr byddai ganddyn nhw gyflenwad cyson o ddŵr ar gyfer yr holl gaeau amaethu, fel bod modd i'r cnydau dyfu a llewyrchu dros ardal eang.

Roedd y system newydd yn golygu bod eu cnydau'n tyfu'n wych, a daethant yn enwog yn fyd-eang am eu gwenith. Roedd teulu Daniel, a'r gymuned, yn gallu ei werthu nid yn unig i'r llwythau Americanaidd brodorol, oedd yn ffrindiau agos, ond yn llawer ymhellach i ffwrdd hefyd.

Adeiladwyd melin ddŵr gydag olwyn fawr er mwyn malu'r gwenith i wneud blawd. Yn naturiol, rhoddwyd yr enw Trefelin ar y gymuned a dyfodd o'i chwmpas. Roedd y galw am wenith a blawd yn dal i gynyddu, a bu raid iddyn nhw adeiladu rheilffordd i gludo'r nwyddau i'r porthladd lleol – Porth Madryn – er mwyn iddo gael ei gludo oddi yno mewn llongau i wledydd ledled y byd. Aeth y gymuned ati i ffurfio cwmni cydweithredol, lle roedd gan pawb hawl i ddweud ei farn am y modd roedd y busnes yn gweithredu, a phawb yn rhannu'r elw – yn wahanol iawn i berchennog y pwll glo yng Nghymru.

Mae modd i chi ymweld â'r felin ddŵr wreiddiol yn Nhrefelin, a bellach mae yna amgueddfa'n adrodd hanes sut y setlodd y Cymry yn nyffryn Chubut a dysgu sut i weithio gyda'r tirlun naturiol – a hwnnw'n gwbl wahanol i'r un roedden nhw wedi arfer ag e. Mae'r iaith Gymraeg yn dal i gael ei siarad yn Nhrefelin ac mewn trefi a phentrefi eraill ledled Patagonia. Oherwydd bod yr ymfudwyr Cymreig gwreiddiol wedi bod mor llwyddiannus wrth ddatblygu eu cymuned a'u busnesau, symudodd llawer o bobl o rannau eraill o'r Ariannin a De America i wneud eu cartref ym Mhatagonia.

Dros amser, mae disgynyddion yr ymfudwyr Cymreig gwreiddiol wedi cymysgu gyda'r rhai sy'n byw ar eu pwys ym Mhatagonia, felly mae'r bobl sy'n siarad Cymraeg hefyd yn siarad Sbaeneg – prif iaith De America. Ac er bod hynny'n golygu nad *dim ond* cymuned Gymraeg yw Patagonia heddiw, os byddwch yn ymweld â'r ardal fe welwch lawer o Gymraeg yn yr enwau lleoedd, yn enwau'r strydoedd, yn yr ysgolion a'r capeli, ac yn y busnesau. A hyd yn oed yn y capeli, lle mae'r gwasanaethau bellach yn cael eu cynnal yn yr iaith Sbaeneg, byddwch yn eitha tebygol o weld bod y gynulleidfa'n dal i ganu emynau Cymraeg.